**Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi - Nodyn Cyfarfod - Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – 15 Hydref 2020**

**Yn bresennol:**

John Griffiths AS (Cadeirydd)
Rachel Cable – Oxfam Cymru (Ysgrifenyddiaeth)
David Beck – Prifysgol Bangor
Andrew Bettridge – Swyddfa John Griffiths AS
Pearl Costello – Bwyd Caerdydd
Karen Davies – Purple Shoots
Tom Davies – Cymdeithas y Plant
Ryland Doyle – Swyddfa Mike Hedges AS
Martin Eaglestone – Swyddfa Dawn Bowden AS
Steffan Evans – Sefydliad Bevan
Sarah Germain – FareShare
James Hall – People in Work
Ellie Harwood – Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant
Emma Holmes – Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro
Cerys Jones
Siôn Jones – Swyddfa Helen Mary Jones AS
Babs Lewis – The Big Issue
Susan Lloyd-Selby – Ymddiriedolaeth Trussell
Katie Palmer – Synnwyr Bwyd Cymru
Catherine Rees – Achub y Plant
Sam Rex-Edwards – Trefnu Cymunedol Cymru
Chad Rickard – Swyddfa Bethan Sayed AS
Dan Roberts – Canolfan Cydweithredol Cymru
Beth Thomas – The Big Issue
Raul Vasir – Prifysgol Abertawe
Carol Wardman – Yr Eglwys yng Nghymru
Therese Warwick – Cafod De Cymru
Jamie Westcombe – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

**Nodyn cyfarfod**

1. Croesawodd y Cadeirydd y cyfranogwyr i'r cyfarfod, a gynhaliwyd yn ystod 'Wythnos Herio Tlodi'. Esboniodd y Cadeirydd y byddai angen iddo adael y cyfarfod ychydig yn gynnar i fynd i'r cyfarfod Pwyllgor, felly Oxfam Cymru fyddai'r Cadeirydd ar gyfer gweddill y cyfarfod.

2. Cytunodd y grŵp i ailethol John Griffiths AS yn Gadeirydd y grŵp, ac Oxfam Cymru yn ysgrifenyddiaeth.

3. Cyflwynodd y Cadeirydd Wythnos Herio Tlodi – cyfle i dynnu sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud gan grwpiau cymunedol ar draws Cymru, ac i ddangos yr hyn sy’n gallu ac yn gorfod cael ei wneud yn wahanol. Croesawodd y Cadeirydd y tri siaradwr a wahoddwyd i rannu eu gwaith fel rhan o Wythnos Herio Tlodi.

    a. Sam Rex-Edwards o Trefnu Cymunedol Cymru, sefydliad yng Ngogledd Cymru (Wrecsam, Sir y Fflint, a Sir Ddinbych). Amlinellodd SRE ei waith, gan esbonio ei fod yn ceisio mynd i'r afael ag anghyfiawnder cymdeithasol drwy gefnogi cymunedau i gael y pŵer y mae arnynt ei angen i gyflawni newid. Mae TCC yn gwneud hyn drwy waith trefnu cymunedol: dod â grwpiau lleol ynghyd fel y gallant bennu eu hagenda eu hunain, cymryd camau a gwella eu cymunedau. Mae blaenoriaethau thematig presennol TCC yn cynnwys: tai (datblygu siarter tai sy’n benodol i’r rhanbarth); noddfa (fel rhan o’r mudiad Dinasoedd Noddfa) a chefnogi'r ymgyrch 'Lift the Ban', a

rhoi terfyn ar lwgu mewn ysgolion. Dywedodd SRE fod llawer o faterion lleol y mae TCC yn gweithio arnynt yn faterion cenedlaethol, ac anogodd ragor o gynnydd ar achosion strwythurol tlodi.

b. Esboniodd Pearl Costello o Bwyd Caerdydd, fel un o'r sefydliadau a sefydlodd y Rhwydwaith Bwyd Cynaliadwy, mai prif farn y sefydliad yw y dylai bwyd fod yn dda i bobl, yn dda i'r man lle rydym yn byw, ac yn dda i'r blaned, yn ogystal â bod yn fforddiadwy ac yn flasus. Esboniodd PC fod Bwyd Caerdydd mewn sefyllfa dda i ymateb yn ystod brigiad cyntaf Covid-19, gan allu dwyn capasiti presennol a newydd ynghyd, a chynnull grŵp gorchwyl newydd a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth gan yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol, FareShare, Banc Bwyd Caerdydd ac ati. Nododd PC fod cynaliadwyedd y gwaith hwn yn y tymor hir yn bryder. Amlinellodd Nerys Sheehan o Gweithredu yng Nghaerau a Threlái ei waith yn ystod pandemig Covid-19, a chroesawu newidiadau cadarnhaol Llywodraeth Cymru ar brydau ysgol am ddim, ond mynnu bod angen rhagor o gamau gweithredu. Esboniodd NS fod ei fodel pantri bwyd wedi'i addasu drwy'r pandemig, a bod danfoniadau i gartrefi â manteision ychwanegol, er enghraifft, cynnal gwiriadau lles ar bobl agored i niwed.

Trosglwyddodd y Cadeirydd i Oxfam Cymru.

c. Esboniodd Karen Davies o Purple Shoots fod ei sefydliad microgyllid nid-er-elw yn darparu benthyciadau busnes bach ar gyfraddau teg, yn ogystal â chreu grwpiau hunanddibynnol – gan ddarparu lleoedd i bobl ddod ynghyd, rhannu a dysgu sgiliau newydd. Esboniodd KD y gall annibyniaeth ariannol a gweithio i gynilo arian ymddangos yn freuddwyd bell i lawer o bobl sy'n hawlio budd-daliadau, a heb gynilion. Pwysleisiodd KD yr angen am system gyllid sy'n gweithio i bobl, nid un sy'n ysgogi anghydraddoldeb.

4. Diolchodd y Cadeirydd i'r holl siaradwyr am eu cyfraniadau, a gwahoddodd gwestiynau. Roedd y drafodaeth yn ymdrin â'r canlynol: cynnydd mewn diddordeb gan bobl sydd am sefydlu busnesau bwyd ers y cyfyngiadau symud; pryder ynghylch y cymhwysedd presennol i gael prydau ysgol am ddim ac awgrymu prydau ysgol am ddim i bawb; myfyrdodau ynghylch pa gymorth sydd ei angen i sefydliadau llawr gwlad barhau; yr angen i Gymru gael mwy o lais wrth ddylanwadu ar benderfyniadau ar y system nawdd cymdeithasol.

5. Gwahoddodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gymryd rhan mewn ymarfer 'chat fall' ynghylch pa un newid y dylem ei geisio i drechu tlodi gan Lywodraeth nesaf Cymru. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys: ymrwymiad i ymchwilio a gweithredu Fframwaith Safonau Byw Cymru fel ffordd o fesur llwyddiant dros CMC; prydau ysgol am ddim i bawb (o fabanod i Flwyddyn 13)/dileu'r terfyn enillion ar gyfer cael prydau ysgol am ddim; strategaeth lleihau tlodi gydlynol, gan gyfeirio at y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol; rhoi terfyn ar yr angen am fanciau bwyd; buddsoddiad parhaus a chryfach mewn cymorth arbenigol ar gyfer mentrau cymdeithasol; pob ardal yng Nghymru i gael partneriaeth bwyd leol (sydd ag adnoddau a chymorth da i gydgysylltu camau gweithredu); ymrwymiad i roi terfyn ar dlodi plant; Incwm Sylfaenol Cyffredinol; sefydlu system budd-daliadau yng Nghymru; rhagor o fuddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus; a gweithio tuag at 'Economi Llesiant'.

6. Roedd y drafodaeth a ddilynodd hynny'n canolbwyntio ar ddyheadau a gweithredoedd trechu tlodi yn y dyfodol. Roedd cytundeb eang am yr angen i fynd y tu hwnt i 'blasteri glynu', ac angen brys i fynd i'r afael â phroblemau strwythurol tymor hir sy'n cadw pobl mewn tlodi. Awgrymwyd dull fesul cam – cadw'r ffocws ar gamau gweithredu tymor hwy, ond nodi'r camau sydd eu hangen i'w cyrraedd. Rhannwyd pryder ynghylch ein ffocws parhaus ar CMC, a chafwyd awgrymiadau y dylem newid i fframwaith newydd ar gyfer ein heconomi a'n cymdeithas. Nodwyd, er mai San Steffan sy'n gyfrifol am rai ysgogiadau trechu

tlodi, fod gan Gymru ystod o ysgogiadau a deddfwriaeth flaengar i'n tywys i'r cyfeiriad cywir, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Newidiodd y drafodaeth i bŵer, a’r angen i alluogi pobl i ymgysylltu â strwythurau penderfynu, busnesau, ac awdurdodau lleol yn eu hardal, er enghraifft, ar arferion caffael. Rhannwyd amryw o ddulliau gweithredu lleol, arloesol, er enghraifft, fersiwn hyperleol o Amazon.

7. Gwahoddodd y Cadeirydd y grŵp i fyfyrio a oes angen mesurau a thargedau trechu tlodi penodol ar Gymru, a phortffolio gweinidogol ar gyfer trechu tlodi. Codwyd ystod o faterion, gan gynnwys pryder ynghylch targedau afrealistig, ac y gall mesur cynnydd fod yn fwy effeithiol weithiau. Hefyd, nodwyd bod targedau a mesurau’n ddefnyddiol er mwyn dwyn y llywodraeth i gyfrif. Awgrymwyd, er y dylai trechu tlodi fod yn drawslywodraethol ac yn groestoriadol, y dylai hefyd fod yn glir lle y mae arweinyddiaeth strategol at ddibenion atebolrwydd a chraffu.

8. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am gymryd rhan yn y cyfarfod, a gweithgareddau Wythnos Herio Tlodi ehangach.

**OXFAM CYMRU**